


# PLANEDAU

## Planedau nwy (dwysedd isel)


- 1 Torrwch ben y balŵn i ffwrdd, ac yna agorwch y twll yn llydan iawn, yn ddigon mawr i chi roi eich bysedd ynddo.
- 2 Gofynnwch i ffrind gael llond llaw mawr o stwffin a'i roi y tu mewn i'r falŵn. Gollyngwch y top a gwnewch yn siŵr bod y maint yn iawn. Os nad yw'n ddigon mawr, rhowch fwy o stwffin ynddi.
- 3 Nawr dewiswch falŵn arall a thorrwch y top i ffwrdd. Rhowch yr ail falŵn dros y falŵn sydd wedi ei llenwi â stwffin, gan wneud yn siŵr bod yr ail falŵn yn gorchuddio'r twll.



## Planedau creigiog (dwysedd uchel)



- 1 Defnyddiwch y twmffat a'r jwg i lenwi'r botel gyda reis at y llinell sydd wedi ei marcio.
- 2 Chwythwch falŵn, trowch y top i rywstro'r aer rhag dianc, a rhowch ef dros dop y botel. Mae'n siŵr y bydd amoch angen ffrind i'ch helpu!
- 3 Trowch y botel â'i phen i waered ac ysgwydwch y reis lawr i'r falŵn (gafaelwch yng ngwaelod y falŵn fel nad yw'n dod i ffwrdd).
- 4 Tynnwch y falŵn oddi ar y botel yn ofalus a gadewch weddill yr aer allan.
- 5 Torrwch y top oddi ar y falŵn (uwchben lefel y reis). Nawr torrwch y top oddi ar falŵn arall a rhowch hi dros y falŵn gyntaf, gan wneud yn siŵr bod y twll wedi ei orchuddio.



Os gallech chi greu planed...

beth fyddai wedi ei gwneud ohono?

sut byddai'n edrych?

beth fyddai ar yr arwyneb?



Gwnewch blaned heddiw – cysawd yr haul yfory!

## Beth mae planedau wedi eu gwneud ohono?

Mae planedau o'n cwmpas ym mhobman – mae wyth ohonyn nhw yng nghysawd ein haul ni a llawer mwy o amgylch sêr yng ngweddill y bydysawd.

Daw planedau mewn llawer o liwiau a meintiau gwahanol, mae eu pwysau yn amrywio ac maent wedi eu gwneud o bethau gwahanol hefyd. Rydym yn meddwl bod yr holl ddeunydd sydd wedi creu'r planedau wedi ei ffurfio y tu mewn i sêr biliynau o flynyddoedd yn ôl. Mae planedau llai yn aml wedi eu gwneud o graig ac mae planedau mwy yn aml yn beli mawr o nwy.

Mae pwysau planedau yn amrywio'n fawr iawn. Mae hyd yn oed y rhai sydd yr un maint yn gallu amrywio o ran eu pwysau – dwysedd yw'r enw am hyn. Mae planedau dwysedd uchel yn drwm iawn i'w maint, ac mae planedau dwysedd isel yn ysgafn iawn.

Er enghraifft, yng nghysawd ein haul ni, mae'r Ddaear a phlaned Mawrth yn blanedau bach, creigiog, dwysedd uchel; mae planedau Iau a Sadwrn yn blanedau nwy enfawr, dwysedd isel.

## Gwnewch blaned

### Pa liw fydd hi?

Dewiswch ddwy falŵn o'r lliw hwnnw.

### Pa mor ddwys yw eich planed?

Dwysedd uchel – wedi ei llenwi â reis  
Dwysedd isel – wedi ei llenwi â stfffin

### Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y cefn i wneud eich planed

## Beth yw enw eich planed?

Gwnewch gysawd yr haul yn eich cartref. Arbrofwch gyda'r hyn rydych yn ei ddefnyddio i lenwi eich planed ar gyfer dwyseddau gwahanol. Ar gyfer planedau nwy, gallech chwythu balŵn neu ei llenwi â dŵr, ond byddwch yn ofalus nad yw hi'n byrstio!

### Hoffech chi wybod mwy?

Ewch i [www.physics.org](http://www.physics.org) a chwiliwch am "planets" am nifer o wefannau gwych. Ewch i [www.nineplanets.org/tour](http://www.nineplanets.org/tour) am daith o amgylch cysawd ein haul ni, a [www.planethunters.org](http://www.planethunters.org) i chwilio am blaned eich hun!

## Addurnwch eich planed

Defnyddiwch y pennau ysgrifennu i'w haddurno.

Rhowch dywod dros blanedau creigiog.

Rhowch glityr dros blanedau rhewllyd.

## Sut atmosffer sydd gan eich planed?

Anweledig!  
Peidiwch â gwneud dim.

Trwchus a chymylog - defnyddiwch ddarnau o wllân cotwm.

Tenau – defnyddiwch haenen lynu. Bydd stribedi neu blygiadau yn yr haenen lynu yn edrych fel chwyrtiadau nwy.

## Beth sydd ar arwyneb planed?

Mae atmosffer o amgylch y rhan fwyaf o blanedau solet. Haenen o nwy yw hon sy'n lapio o amgylch y blaned. Ar y Ddaear, mae'r atmosffer yn ein hamddiffyn rhag effeithiau niweidiol yr haul. Er hynny, mae trwch yr atmosffer yn denau iawn o'i gymharu â maint y Ddaear – mae'r atmosffer tua 70 milltir o drwch, ac mae'r pellter o ganol y Ddaear at yr wyneb bron yn 4000 milltir!

O dan yr atmosffer, mae gan y planedau nifer o wahanol arwynebau. Mae'r Ddaear wedi ei gorchuddio'n bennaf â dŵr, craig, pridd ac iâ (a llawer o goncrit, ers dyfodiad pobl). Mae gan y blaned Mawrth arwyneb coch creigiog. Nid ydym wedi dod o hyd iddi eto, ond efallai bod planed wedi ei gorchuddio â siocled rhywle yn y bydysawd... mmm, blasus!

## Sut un yw eich planed?

